**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 29 Mawrth 2016**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Mohammed Mehmet - Prif Weithredwr |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Bobby Feeley - Personol - Eitem 6 ar y Rhaglen - Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | DIRWYN CYDBWYLLGOR TAITH I BEN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br>*(a) cymeradwyo penderfyniad Cydbwyllgor Taith i derfynu ei swyddogaeth, a fydd yn dod i rym o 29 Medi, 2015.*<br>*(b) cefnogi sefydlu Fforwm Ymgynghorol ar Gludiant o dan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gynnwys Aelod Arweiniol Tir y Cyhoedd fel cynrychiolydd Sir Ddinbych.* |
| **6** | PRYDLES ARFAETHEDIG TŶ NANT, PRESTATYN I FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI | ***PENDERFYNWYD*** *rhoi prydles ar delerau sy'n adlewyrchu gosod yr eiddo ar y farchnad agored fel yr argymhellwyd gan Reolwr Datblygu Masnachol y Cyngor ac asiantau allanol y Cyngor.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | CADWALADR | |
| **7** | Y RHYL YN SYMUD YMLAEN – ADOLYGU A CHAMAU NESAF | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cynnydd a wnaed â phrosiectau adfywio yn y Rhyl;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r cynigion ar gyfer y cam nesaf o weithgaredd adfywio yn y Rhyl a nodir isod ac a ddangosir yn Atodiad 2 yr adroddiad a chytuno y dylid eu defnyddio i lywio blaenoriaethau ar gyfer unrhyw gyllid adfywio a allai fod ar gael; a*<br><br>*(c) cymeradwyo'r trefniadau rheoli rhaglen a llywodraethu a nodir isod yn yr adroddiad ac a ddangosir yn Atodiad 3 yr adroddiad.* |
| **8** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 3 – 2015/16 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 – 17 ar ddiwedd chwarter 3 2015/16.* |
| **9** | POLISÏAU CYFLOGAETH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn mabwysiadu'r polisïau cyflogaeth fel y manylwyd yn yr adroddiad.* |
| **10** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b)* *cymeradwyo'r defnydd o danwariant o fewn y PFI a Chyllidebau Cyllido Cyfalaf o £677,000 i sefydlu cronfa wrth gefn i helpu lliniaru effeithiau gostyngiadau mewn cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r strategaeth y gyllideb ar gyfer 2017/18, ac*<br><br>*(c)* *nodi'r diweddariad ar y Setliad Terfynol a chymeradwyo'r defnydd a argymhellir o'r £6,000 ychwanegol mewn cyllid Llywodraeth Cymru.* |
| **11** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |